

Adroddiad Arolygu Ysbyty (Dirybudd)

Uned Ablett, Ysbyty Glan Clwyd,
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi
Cadwaladr

Dyddiad yr arolygiad: 17, 18 ac 19
Gorffennaf 2023

Dyddiad cyhoeddi: 19 Hydref 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	• Ansawdd Profiad y Claf	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	14
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	21
4.	Y camau nesaf	25
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	26
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	27
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	28

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o Uned Ablett yn Ysbyty Glan Clwyd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 17, 18 ac 19 Gorffennaf 2023. Adolygwyd y wardiau canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Ward Tegid - Ward iechyd meddwl i ddynion a menywod hŷn â 10 gwely
- Ward Dinas i Ddynion - Ward derbyn â 10 gwely i ddynion â chyflyrau aciwt
- Ward Dinas i Fenywod - Ward derbyn â 10 gwely i fenywod â chyflyrau aciwt

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau Arolygydd Gofal Iechyd AGIC, pedwar adolygydd cymheiriaid clinigol ac un adolygydd profiad y claf. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Gwnaethom wahodd y cleifion i gwblhau holiaduron AGIC yn ystod ac ar ôl yr arolygiad er mwyn cael gwybod eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn yr uned. Er mai dim ond nifer bach o holiaduron a gawsom wedi'u cwblhau gan y cleifion, treuliodd ein hadolygydd profiad y claf amser ar y wardiau a bu'n siarad â llawer o gleifion drwy gydol yr arolygiad i gael eu barn.

Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn i ni ar weithio i'r gwasanaeth. Cawsom 12 o holiaduron wedi'u cwblhau gan y staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad. Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y cleifion yn cael asesiadau gofal iechyd corfforol priodol yn ogystal â'u gofal iechyd meddwl. Roedd hyn yn arbennig o amlwg ar Ward Tegid lle roedd gan rai cleifion anghenion corfforol aciwt. Gwelsom y staff yn dangos parch wrth drin y cleifion ac yn cefnogi cleifion ar Ward Tegid ag anghenion gofal personol mewn ffordd urddasol a sensitif.

Roedd cyfleoedd i'r cleifion gymryd rhan mewn gweithgareddau yn ystod eu harhosiad yn yr uned. Gwelsom fod gwybodaeth wedi'i harddangos ar y wardiau i roi gwybod i gleifion am eu hawliau o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Nid oedd amgylchedd ffisegol y wardiau yn helpu i gynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion yn llawn. Er enghraifft, er bod gan y mwyafrif o'r cleifion eu hystafell eu hunain, roedd yn rhaid i rai cleifion rannu ystafell wely. Roeddem hefyd yn teimlo y byddai o fudd i'r cleifion pe gallent bersonoli eu hystafelloedd er mwyn creu rhywle a all fynegi eu personoliaeth a helpu i hybu llesiant.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen gwneud gwaith cynnal a chadw er mwyn gwella ymddangosiad yr ardd ar Ward Dinas i Fenywod
- Rhaid adolygu'r trefniadau smygu i gleifion ar absenoldeb Adran 17 er mwyn sicrhau bod iechyd a llesiant y staff yn cael eu diogelu'n llawn
- Rhaid tacluso'r ystafell golchi dillad a dylid storio a labelu dillad y cleifion yn briodol
- Rhaid sicrhau bod gwybodaeth hybu iechyd ar gael i helpu cleifion i wneud penderfyniadau sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu hiechyd a'u llesiant.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw yn canmol y gofal a oedd yn cael ei ddarparu a'r rhyngweithio rhyngddynt a'r staff
- Roedd dewis iaith pob claf wedi'i gofnodi ar y bwrdd cipolwg ar statws cleifion ar bob ward, a nodwyd bod hyn yn arfer dda.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau ar waith i helpu'r staff i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Roedd amgylchedd pob ward yn lân ac yn daclus ac roedd gosodiadau a ffitiadau priodol ar gyfer y grŵp cleifion. Roedd polisïau a phrosesau

sefydledig y bwrdd iechyd ar waith er mwyn sicrhau bod y staff yn diogelu cleifion agored i niwed, ac roedd achosion yn cael eu hatgyfeirio at asiantaethau allanol fel y bo'n ofynnol. Roedd trefniadau atal a rheoli heintiau addas ar waith yn yr uned.

Roedd egwyddorion cymorth ymddygiadol cadarnhaol yn cael eu defnyddio i bennu lefel y risg ac i annog pobl i gymryd risgiau cadarnhaol. Roedd cofnodion y cleifion a welsom yn ystod yr arolygiad yn gynhwysfawr ac o ansawdd da. Cawsom ein sicrhau bod cyfrifoldebau'r bwrdd iechyd o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl (y Ddeddf) yn cael eu cynnal.

Nodwyd materion mewn perthynas â chynllun ffisegol, lleoliad a gofynion staffio'r ystafell Adran 136. Gwelsom faterion tebyg yn ystod ein harolygiad blaenorol o Uned Ablett ym mis Ionawr 2019, ac felly ni chawsom ein sicrhau o hyd fod amgylchedd presennol yr ystafell Adran 136 yn addas at y diben.

Rydym wedi gofyn i'r bwrdd iechyd adolygu'r defnydd o'r ystafell Adran 136 er mwyn dod o hyd i atebion i'r problemau amgylcheddol a'r gofynion staffio er mwyn darparu trefniadau cyflenwi diogel ar gyfer staff yn yr ystafell Adran 136 ynghyd â chynnal lefelau staffio diogel ar y wardiau.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r bwrdd iechyd ddatblygu polisi sy'n nodi'r disgwyliadau o ran diogelwch staff mewn perthynas â gwisgo larymau personol
- Rhaid i ddillad neu ddillad gwely budr gael eu trin, eu cludo a'u dihalogi yn unol â'r canllawiau ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05
- Dylid sicrhau bod cyfarpar pwysu arbenigol ar gael i fesur pwysau cleifion sy'n gaeth i'r gwely
- Rhaid i Gofnodion Rhoi Meddyginiaeth (siartiau MAR) gael eu cwblhau'n llawn a dylid ysgrifennu'n glir er mwyn osgoi dryswch i'r staff a lleihau'r risg o gamgymeriadau o ran meddyginiaeth.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd yn ymddangos bod prosesau llywodraethu a goruchwyllo priodol ar waith o ran gweithgareddau a chyfarfodydd i drafod materion yn ymwneud â gofal cleifion ac i nodi gwelliannau.

Dywedodd y mwyafrif o'r staff y byddent yn argymhell yr uned fel lle i weithio ac y byddent yn fodlon ar safon y gofal a ddarperir gan yr uned ar eu cyfer eu hunain neu ar gyfer ffrindiau neu deulu. Fodd bynnag, mynegodd rhai aelodau o'r staff bryderon am y lefelau staffio yn yr uned hefyd ac roeddent yn teimlo nad oedd yr uwch-reolwyr yn bresennol ac nad oedd cyfathrebu rhwng yr uwch-reolwyr a'r staff

yn effeithiol. Rydym wedi gofyn i'r bwrdd iechyd roi sicrwydd i AGIC o ran a gaiff y trefniadau staffio presennol eu hadolygu yng ngoleuni'r materion a godwyd.

Cawsom wybod hefyd y bwriedir i gyfleuster iechyd meddwl newydd fod yn weithredol o 2026 a fyddai'n datrys rhai o'r problemau a nodwyd yn ystod yr arolygiad hwn. Fodd bynnag, oherwydd nifer y materion a godir yn yr adroddiad hwn, a difrifoldeb rhai ohonynt, rhaid i'r bwrdd iechyd roi sicrwydd i AGIC o ran pa gamau a gaiff eu cymryd yn y cyfamser i wella'r amgylchedd ac ansawdd y gofal a ddarperir i gleifion yn yr uned cyn i'r cyfleuster newydd gael ei agor.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r bwrdd iechyd fyfyrrio ar adborth y staff a rhoi sicrwydd o ran sut y bydd yn ymgysylltu â'r staff ac yn gwrando arnynt, ac yn sicrhau bod yr uwch-reolwyr yn fwy gweladwy er mwyn rhoi mwy o gymorth a sicrhau y gall y staff gyflawni eu cyfrifoldebau i ddarparu gofal o ansawdd uchel i gleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwelsom dystiolaeth o waith cynllunio priodol mewn perthynas â rhyddhau ac ôl-ofal, gyda chyfranogiad da gan y tîm amlddisgyblaethol, cydgysylltwyr gofal a thimau iechyd meddwl o'r gymuned leol
- Roedd cyfraddau cydymffurfio â hyfforddiant gorfodol yn uchel ymhlith y staff yn yr uned.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Rhoddodd y cleifion adborth cadarnhaol am eu profiadau yn yr uned. Roedd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw yn canmol y gofal a oedd yn cael ei ddarparu a'r rhyngweithio rhyngddynt a'r staff.

Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Hybu Iechyd

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion pedwar claf a gwelsom dystiolaeth bod y cleifion wedi cael asesiadau gofal iechyd corfforol priodol adeg eu derbyn. Roedd y cleifion yn cael adolygiadau rheolaidd yn ystod eu harhosiad yn yr uned. Roedd hyn yn arbennig o amlwg ar Ward Tegid lle roedd gan rai cleifion anghenion corfforol aciwt. Roedd proses 'cynnal rowndiau bwriadol' yn cael ei defnyddio a gwelsom dystiolaeth bod y staff yn asesu ac yn archwilio'r cleifion yn rheolaidd er mwyn diwallu eu hanghenion gofal sylfaenol.

Dywedwyd wrthym fod rhai mentrau hybu iechyd wedi cael eu cynnal gyda'r cleifion. Er enghraifft, mae cleifion wedi cael sesiynau i roi'r gorau i smygu ac wedi cael cynnig patsys nicotin. Fodd bynnag, ni welsom unrhyw wybodaeth hybu iechyd yn cael ei harddangos ar y wardiau i annog cleifion i fod yn gyfrifol am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth hybu iechyd ar gael i helpu cleifion i wneud penderfyniadau sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu hiechyd a'u llesiant.

Nid oedd hawl gan y cleifion i smygu ar dir yr ysbyty. Fodd bynnag, mynegodd un aelod o'r staff bryderon mewn perthynas â mewnanadlu mwg ail law wrth hebrwng cleifion sy'n smygu ar absenoldeb Adran 17. Dywedodd yr aelod o'r staff:

"Ni ddylai staff fod yn hebrwng cleifion pan fyddant yn mynd i smygu gan eu bod yn mewnanadlu mwg ail law. Pwy fydd yn atebol pan fydd aelod o staff yn cael canser o fwg ail law? Nid yw'n deg, yn enwedig os nad yw'r aelodau o'r staff erioed wedi smygu am y rheswm hwn."

Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r trefniadau smygu i gleifion sydd ar absenoldeb Adran 17 er mwyn sicrhau bod iechyd a llesiant y staff yn cael eu diogelu'n llawn.

Roedd cyfleoedd i'r cleifion gymryd rhan mewn gweithgareddau yn ystod eu harhosiad yn yr uned. Roedd llyfrau, gemau bwrdd a DVDs ar gael er mwyn helpu i ennyn diddordeb y cleifion gwelsom gleifion yn chwarae pŵl yn yr ystafell weithgareddau gymunedol. Hefyd, gwelsom gleifion yn cael mynd allan gyda chwmni i'r gymuned leol am ginio yn ystod yr arolygiad.

Roedd gan bob ward ardal awyr agored y gallai'r staff ei defnyddio bob amser. Cawsom wybod bod gardd Ward Dinas i Ddynion wedi cael ei hadnewyddu gyda chymorth cleifion yn 2021. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd cyflwr yr ardd yn Ward Dinas i Fenywod o safon debyg.

Rhaid i'r bwrdd iechyd wella cyflwr yr ardd ar Ward Dinas i Fenywod.

Gofal Urddasol a Pharchus

Drwy gydol yr arolygiad, gwelsom fod y staff yn trin y cleifion ag urddas a pharch. Dangosodd y staff wybodaeth dda am bob claf a gwelsom gleifion ar Ward Tegid yn cael cymorth gyda'u hanghenion gofal personol mewn ffordd urddasol a sensitif. Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod wedi cael eu trin â pharch.

Er bod y cleifion wedi'u gwahanu yn ôl rhyw ar Ward Dinas (Dinas i Fenywod a Dinas i Ddynion), gallai cleifion o bob ward gymysgu a chymdeithasu â'i gilydd yn yr ystafell weithgareddau gymunedol.

Nid oedd amgylchedd ffisegol y wardiau yn helpu i gynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion yn llawn. Er bod gan y mwyafrif o'r cleifion eu hystafell eu hunain, roedd yn rhaid i rai cleifion rannu ystafell wely. Yn yr achosion hyn, defnyddiwyd llenni i gadw'r gwelyau ar wahân a oedd yn sicrhau lefel sylfaenol o breifatrwydd. Roedd sinc ym mhob ystafell wely ond dim toiled, a oedd yn golygu bod yn rhaid i bob un o'r cleifion ddefnyddio'r cyfleusterau ystafell ymolchi cymunedol. Rydym yn croesawu'r cynlluniau sydd ar waith i ddatblygu cyfleuster iechyd meddwl newydd ar ran ar wahân o safle'r ysbyty a fydd yn darparu cyfleusterau llawer gwell i gleifion yn hyn o beth.

Gwnaethom ofyn am gopi o bolisi preifatrwydd ac urddas y bwrdd iechyd a chawsom wybod nad oedd polisi ar waith.

Rhaid i'r bwrdd iechyd ddatblygu polisi preifatrwydd ac urddas er mwyn nodi sut y caiff cleifion eu trin â pharch ac urddas bob amser tra byddant yn cael gofal a thriniaeth. Dylai'r polisi drafod sut y caiff preifatrwydd ac urddas eu

cynnal i gleifion ar wardiau cymysg fel Ward Tegid ac i gleifion sy'n rhannu ystafelloedd gwely.

Gallai'r cleifion gloi eu hystafelloedd ond gallai'r staff eu hagor o hyd pe bai angen. Roedd panel arsylwi ar ddrws pob ystafell wely a oedd yn galluogi'r staff i wneud arsylwadau heb orfod agor y drws a tharfu ar y cleifion. Heblaw am le storio, nid oedd yr ystafelloedd gwely a welsom wedi cael eu personoli gan y cleifion. Dywedwyd wrthym y caiff y cleifion eu hannog i beidio ag arddangos pethau ar eu waliau. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod rhai cleifion wedi bod yn aros yn yr uned am gyfnodau hir.

Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried caniatáu i'r cleifion bersonoli eu hystafelloedd er mwyn creu rhywle a all fynegi eu personoliaeth a helpu i hybu llesiant.

Gwybodaeth i gleifion

Roedd gwybodaeth berthnasol ar gyfer cleifion wedi'i harddangos ym mhob ward. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am y Ddeddf Iechyd Meddwl, gwasanaethau eirioli ac amseroedd ymweld. Roedd posteri Gweithio i Wella y GIG wedi'u harddangos mewn lleoedd amrywiol ar draws yr uned er mwyn rhoi gwybod i'r cleifion sut y gallent wneud cwyn. Roedd enwau'r staff a oedd yn gweithio ar bob ward wedi'u harddangos hefyd.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Gwelsom hysbysfyrddau ar y ddwy ward a oedd yn dangos y gweithgareddau therapiwtig y gall y cleifion gymryd rhan ynddynt. Yng nghofnodion y cleifion y gwnaethom edrych arnynt, gwelsom fod cynlluniau gofal a thriniaeth yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac ar ganlyniadau yn bennaf, gyda nodau clir a chyflawnadwy. Fodd bynnag, roeddem yn teimlo bod angen gwell eglurder mewn un cynllun gofal a thriniaeth mewn perthynas â'r gweithgareddau therapiwtig a neilltuwyd i un claf, a phwy oedd yn gyfrifol am eu darparu. Roeddem hefyd yn teimlo y gallai rhai cynlluniau gofal a thriniaeth ystyried cryfderau cleifion yn fwy er mwyn canolbwyntio mwy ar eu proses wella, adsefydlu a'u hannibyniaeth.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cynlluniau gofal a thriniaeth yn bodloni'r canllawiau a nodir ym Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 yn llawn er mwyn cefnogi prosesau gwella.

Roedd yn gadarnhaol gweld bod y bwrdd cipolwg ar statws cleifion ar bob ward yn nodi a oedd angen cymorth ar y cleifion, megis cymhorthion clyw neu olwg. Hefyd, gwelsom gleifion ar Ward Tegid yn cael help gan y staff i ddefnyddio cymhorthion symudedd i fynd i'r ystafell fwyta ar gyfer eu prydau.

Roedd un ystafell golchi dillad i bob claf ei defnyddio. Nodwyd bod yr ystafell yn flêr a bod dillad heb labeli o gwmpas y lle. Nid oedd yn ymddangos bod proses ar waith i helpu'r cleifion i storio eu dillad oedd i'w golchi a oedd yn cynyddu'r risg y byddent yn eu colli.

Rhaid i'r bwrdd iechyd dacluso'r ystafell golchi dillad a gwella'r trefniadau golchi dillad er mwyn sicrhau y caiff dillad y cleifion eu storio a'u labelu'n briodol.

Amserol

Gofal Amserol

Roedd prosesau ar waith a oedd yn helpu i sicrhau bod y cleifion yn cael gofal amserol ac effeithiol yn unol ag anghenion unigol a chlinigol. Gwelsom y staff yn helpu'r cleifion mewn ffordd amserol pan ofynnwyd iddynt.

Roedd cyfarfodydd diogelwch dyddiol yn cael eu cynnal i'r staff er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r tîm amlddisgyblaethol a'r uwch-reolwyr am unrhyw faterion newydd. Aethom i un o'r cyfarfodydd hyn a nodwyd bod trafodaethau da yn cael eu cynnal ynghylch anghenion gofal y cleifion, lefelau defnydd gwelyau, gofynion arsylwi ar gleifion a lefelau staffio.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Roedd dewis iaith pob claf wedi'i gofnodi ar y bwrdd cipolwg ar statws cleifion ar bob ward, a nodwyd bod hyn yn arfer dda. Gwelsom fod gwybodaeth i gleifion, arwyddion a phosteri dwyieithog wedi'u harddangos ym mhob rhan o'r uned. Roedd y staff yn gwisgo bathodyn 'laith Gwaith' i ddangos i'r cleifion eu bod yn siarad Cymraeg. Drwy gydol yr arolygiad, gwelsom y staff a'r cleifion yn rhyngweithio â'i gilydd yn gadarnhaol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Hawliau a Chydraddoldeb

Gwnaethom edrych ar gofnodion cleifion pum unigolyn a oedd wedi cael eu cadw yn yr uned o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Roedd y ddogfennaeth a welsom yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol ac yn dilyn canllawiau Cod Ymarfer Cymru Deddf Iechyd Meddwl 2016 (y Cod). Ceir rhagor o wybodaeth am ein canfyddiadau yn adran Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl yr adroddiad hwn.

Gwelsom fod gwybodaeth wedi'i harddangos ar y wardiau i roi gwybod i gleifion am eu hawliau o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Roedd eiriolwr iechyd meddwl ar gael i bob claf bob wythnos, a oedd yn rhoi gwybodaeth a chymorth i'r cleifion o ran unrhyw faterion a allai godi mewn perthynas â'u gofal.

Roedd ystafell i deuluoedd ar gael i'r cleifion gwrdd â'u teulu a'u ffrindiau yn breifat. Dywedwyd wrthym y gwneir trefniadau ar wahân i ffrindiau a pherthnasau ymweld â chleifion yn eu hystafelloedd gwely os byddant yn gaeth i'r gwely. Roedd gan y rhan fwyaf o'r cleifion eu ffôn symudol eu hunain, ond dywedwyd wrthym y gallai'r cleifion ddefnyddio'r ffonau ar y ward pe bai angen.

Mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff gwblhau hyfforddiant gorfodol ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol fel rhan o'u rôl. Cawsom wybod bod polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol yn cael ei ddatblygu gan y bwrdd iechyd ar hyn o bryd. Mae'n bwysig y caiff y polisi hwn ei rannu â'r holl staff unwaith y bydd wedi cael ei gymeradwyo.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Roedd y brif fynedfa a'r drysau i bob ward wedi'u cloi drwy gydol yr arolygiad er mwyn atal unrhyw achosion o fynediad heb awdurdod. Roedd pwyntiau galw am nyrs ar gael o gwmpas yr uned ac yn ystafelloedd gwely'r cleifion, fel y gallai'r cleifion alw am gymorth pe bai angen. Roedd y staff yn gwisgo larymau personol y gallent eu defnyddio pe bai argyfwng. Gwnaethom ofyn am gael gweld polisi'r bwrdd iechyd ynghylch defnyddio larymau personol, ond cawsom wybod nad oedd polisi o'r fath ar waith.

Rhaid i'r bwrdd iechyd ddatblygu polisi sy'n nodi'r disgwyliadau o ran diogelwch y staff mewn perthynas â gwisgo larymau personol.

Roedd amgylchedd pob ward yn lân ac yn daclus ac roedd gosodiadau a ffitiadau priodol ar gyfer y grŵp cleifion. Roedd gan yr uned ystafell Adran 136 a oedd yn cynnig lle diogel i bobl sydd wedi cael eu cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Nodwyd problemau mewn perthynas â chynllun ffisegol a lleoliad yr ystafell Adran 136 yn ystod ein harolygiad blaenorol o Uned Ablett ym mis Ionawr 2019.

Gwnaethom ofyn i'r bwrdd iechyd adolygu a gwella'r trefniadau yn dilyn yr arolygiad hwnnw, ac roedd yn siomedig gweld yn ystod yr arolygiad hwn fod yr un problemau'n bresennol ac nad oeddent wedi cael eu datrys. Ni chawsom ein sicrhau o hyd felly fod amgylchedd presennol yr ystafell Adran 136 yn addas at y diben.

At hynny, drwy gydol yr arolygiad, dywedodd aelodau o staff wrthym am yr anawsterau o ran sicrhau lefelau staffio diogel ar y wardiau pan gaiff staff eu symud i gyflenwi yn yr ystafell Adran 136. Hefyd, rhoddodd un aelod o'r staff y sylw canlynol yn yr holiaduron:

“Fel nyrsys, mae disgwyl i ni eistedd yn yr ystafell Adran 136 ar ein pen ein hunain gyda chleifion sy'n ddifrifol wael heb le diogel i ni ein hunain os byddant yn dechrau ymddwyn yn ymosodol iawn. Ar adegau, oherwydd y lefelau staffio (mater a gaiff ei godi drwy'r amser), cawn ein gadael ar ein pen ein hunain yn yr ystafell Adran 136 am shifft gyfan.”

Dangosodd adolygiad o ddata digwyddiadau fod pum achos o atal yn gorfforol wedi digwydd yn yr ystafell Adran 136 ers mis Ionawr 2023.

Gwnaethom drafod y materion hyn â'r uwch-reolwyr a oedd yn rhannu ein pryderon a gwnaethant ein sicrhau y byddai'r cyfleuster iechyd meddwl newydd yn mynd i'r

afael â'r problemau hyn. Er bod hyn yn rhoi rhyw lefel o sicrwydd i ni ar gyfer y dyfodol, nid yw hyn yn ymdrin â'r problemau a'r risgiau presennol.

Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r defnydd o'r ystafell Adran 136 a rhaid i hyn gynnwys dod o hyd i atebion i'r problemau amgylcheddol yn yr ystafell a'r gofynion staffio er mwyn darparu trefniadau cyflenwi diogel ar gyfer staff yn yr ystafell Adran 136 ynghyd â chynnal lefelau staffio diogel ar y wardiau.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd trefniadau atal a rheoli heintiau addas ar waith yn yr uned. Roedd arweinydd atal a rheoli heintiau dynodedig wedi cael ei benodi ac roedd yn ymddangos bod dull ar y cyd o roi gweithdrefnau atal a rheoli heintiau ar waith ymhlith staff nyrsio, cadw tŷ a chynnal a chadw.

Roedd amrywiaeth o bolisiau atal a rheoli heintiau cyfredol ar gael a oedd yn nodi'r amrywiol weithdrefnau a oedd ar waith er mwyn cadw'r staff a'r cleifion yn ddiogel. Gwelsom dystiolaeth bod amserlenni glanhau yn cael eu cynnal. Roedd y cyfarpar glanhau yn cael ei storio a'i drefnu'n briodol. Roedd trefniadau addas ar waith i waredu gwastraff clinigol. Roedd archwiliadau rheolaidd wedi cael eu cwblhau er mwyn cadarnhau bod yr amgylchedd yn lân a sicrhau cydymffurfiaeth â gweithdrefnau'r ysbyty.

Gwelsom fod masgiau wyneb a chyfarpar diogelu personol arall ar gael pe bai angen. Gwelsom y staff yn annog y cleifion i olchi eu dwylo cyn bwyta a gwnaethom nodi bod hyn yn arfer atal a rheoli heintiau dda. Rhoddodd pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur adborth cadarnhaol ynglŷn â'r trefniadau atal a rheoli heintiau sydd ar waith ar y ward.

Roedd yr amgylchedd yn lân ac yn daclus drwy gydol yr arolygiad ar y cyfan. Fodd bynnag, nodwyd bod angen gwella rhai ardaloedd:

- Roedd llwydni yng ngwaelod un o'r cawodydd yn yr ystafell ymolchi gymunedol ar Ward Dinas i Fenywod y mae angen cael gwared arno.
- Roedd ychydig o deils wedi cracio a phaneli diogelwch ar goll yn yr ystafelloedd ymolchi cymunedol ar Ward Dinas i Ddynion y mae angen eu newid.
- Roedd ychydig o ddifrod i rai drysau ar Ward Dinas i Ddynion y mae angen ei drwsio.

Rhaid i'r bwrdd iechyd gymryd camau i fynd i'r afael â'r materion hyn er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio.

Nodwyd bod dau beiriant golchi dillad a dau beiriant sychu dillad yn yr ystafell golchi dillad a oedd yn cael eu defnyddio gan bob ward. Efallai y dylai'r bwrdd iechyd ystyried a yw'r cyfleusterau golchi dillad hyn yn ddigonol ar gyfer oddeutu 30 o gleifion yn yr uned. Cawsom wybod hefyd nad oedd cyfleusterau golchi ar wahân i olchi dillad neu ddillad gwely budr cleifion anymataliol.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod dillad neu ddillad gwely budr yn cael eu trin, eu cludo a'u dihalogi yn unol â'r canllawiau ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

Diogelu plant ac oedolion

Gwelsom fod mesurau addas ar waith i ddiogelu oedolion agored i niwed. Roedd arweinydd diogelu dynodedig wedi cael ei benodi ar gyfer yr uned. Roedd prosesau sefydledig ar waith ac roedd atgyfeiriadau yn cael eu cyfeirio at asiantaethau allanol yn ôl y gofyn. Dangosodd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad wybodaeth dda am y gweithdrefnau diogelu a'r trefniadau adrodd.

Roedd polisïau a phrosesau sefydledig y bwrdd iechyd ar waith er mwyn sicrhau bod y staff yn diogelu cleifion agored i niwed, ac roedd achosion yn cael eu hatgyfeirio at asiantaethau allanol fel y bo'n ofynnol. Dywedwyd wrthym fod digwyddiadau a phryderon diogelu yn cael eu trafod yn rheolaidd rhwng uwch-aelodau o'r staff a'r tîm amlddisgyblaethol er mwyn helpu i nodi unrhyw themâu a gwersi a ddysgwyd.

Rheoli meddyginiaethau

Gwnaethom edrych ar drefniadau clinigol yr uned a gwelsom, ar y cyfan, fod gweithdrefnau cadarn ar waith i storio meddyginiaethau'n ddiogel ar bob ward. Roedd yr ystafelloedd clinig yn lân ac yn daclus ac yn drefnus iawn. Roedd yr oergelloedd meddyginiaeth yn cael eu cloi pan nad oeddent yn cael eu defnyddio. Gwelsom fod tymheredd dyddiol yr oergelloedd meddyginiaeth a'r ystafelloedd clinig yn cael ei wirio bob dydd er mwyn sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei storio ar y tymheredd a argymhellir gan y gwneuthurwr. Fodd bynnag, gwelsom nifer bach o fylchau wrth gofnodi tymheredd yr oergelloedd ar y wardiau.

Rhaid i'r bwrdd iechyd atgoffa'r staff am bwysigrwydd cynnal a dogfennu gwiriadau o'r fath.

Roedd polisïau perthnasol, fel rheoli meddyginiaethau a thawelyddu cyflym, ar gael i'r staff. Gwelsom fod trefniadau priodol ar waith ar gyfer storio a defnyddio cyffuriau a reolir a chyffuriau y gellid eu camddefnyddio yn ddiogel ar wardiau lle roedd hyn yn briodol. Roedd cyffuriau'n cael eu storio'n ddiogel a dangosodd y cofnodion a welsom y rhoddir cyfrif am stoc wrth iddo gael ei roi a bod gwiriadau stoc dyddiol yn cael eu cynnal. Roedd archwiliadau yn cael eu cynnal yn fewnol

gan staff clinigol ac yn allanol gan fferylllydd annibynnol er mwyn monitro cydymffurfiaeth barhaus.

Gwnaethom edrych ar sampl o Gofnodion Rhoi Meddyginiaeth (siartiau MAR) a nodwyd eu bod yn cael eu llofnodi a'u dyddio'n gyson pan oedd meddyginiaeth yn cael ei rhagnodi a'i rhoi, ac roedd rheswm yn cael ei gofnodi pan nad oedd meddyginiaeth yn cael ei rhoi.

Fodd bynnag, nodwyd y materion canlynol gennym:

- Nid oedd taldra a phwysau'r cleifion yn cael eu cofnodi bob amser
- Ar gyfer un siart, nodwyd bod y dos wedi cael ei groesi allan a'i ailysgrifennu, ond nad oedd y Clinigydd Cyfrifol wedi llofnodi'r diwygiad hwn.
- Ar gyfer siart arall, ni allem ddeall y llawysgrifen o ran pa mor aml y dylid rhoi meddyginiaeth, ond roedd y feddyginiaeth yn cael ei rhoi gan y staff. Gwnaethom ofyn i'r staff egluro pa mor aml y dylid rhoi'r feddyginiaeth ac ailysgrifennu'r siart er mwyn gwneud hyn yn gliriach.
- Nid oedd 10 o'r 12 siart MAR a welsom yn cynnwys cofnod o statws cyfreithiol presennol y cleifion o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Nodwyd yr un broblem mewn dau arolygiad diweddar a gynhaliwyd gan AGIC yn y bwrdd iechyd. Mae'n siomedig felly nad yw'r gwersi a ddysgwyd yn yr arolygiadau hyn wedi cael eu rhannu'n eang ag unedau iechyd meddwl eraill yn y bwrdd iechyd.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod siartiau MAR yn cael eu cwblhau'n llawn a'u hysgrifennu'n glir er mwyn osgoi dryswch i'r staff a lleihau'r risg o gamgymeriadau o ran meddyginiaeth.

Ymddygiad heriol

Roedd mesurau priodol ar waith i helpu'r staff i ymdrin ag ymddygiad heriol. Roedd polisïau perthnasol, megis atal yn gorfforol ac ymgysylltu ac arsylwi therapiwtig, ar waith ac yn gyfredol. Roedd y staff yn wybodus am anghenion a risgiau pob claf a oedd yn creu dull hyderus o ofalu am gleifion.

Roedd egwyddorion cymorth ymddygiadol cadarnhaol yn cael eu defnyddio i bennu lefel y risg ac i annog pobl i gymryd risgiau cadarnhaol. Roedd y cynlluniau gofal a thriniaeth yn cynnwys strategaethau wedi'u personoli ar gyfer rheoli ymddygiad heriol ac roedd yn ymddangos mai pan fetho popeth arall y defnyddiwyd ymyriadau corfforol. Lle cafwyd caniatâd, roedd asesiadau risg wedi'u teilwra at yr unigolyn yn cael eu cwblhau er mwyn i gleifion gael gafael ar eiddo personol.

Gwelsom y staff yn cynnal arsylwadau yn ystod yr arolygiad a nodwyd eu bod yn cael eu cynnal yn unol â'r polisi.

Effeithiol

Gofal effeithiol

Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau ar waith i helpu'r staff i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Cytunodd pob un o'r staff a gwblhaodd holiadur eu bod yn fodlon ar ansawdd y gofal a'r cymorth y maent yn ei roi i gleifion ac mai gofal cleifion yw prif flaenoriaeth y bwrdd iechyd. Fodd bynnag, dywedodd hanner y staff a gwblhaodd holiadur nad oeddent yn fodlon ar ymdrechion y bwrdd iechyd i'w cadw nhw a'r cleifion yn ddiogel.

Rhaid i'r bwrdd iechyd drafod yr elfen hon o'r adborth â'r staff er mwyn dod o hyd i ffyrdd o wella ymdeimlad o ddiogelwch i'r staff a'r cleifion.

Roedd system electronig sefydledig ar waith ar gyfer cofnodi, adolygu a monitro digwyddiadau. Roedd hierarchaeth ar gyfer cofnodi digwyddiadau. Roedd adroddiadau ar ddigwyddiadau yn cael eu llunio a'u hadolygu'n rheolaidd fel y gellid monitro a dadansoddi faint o ddigwyddiadau oedd yn codi. Cadarnhaodd y cyfarfodydd y gwnaethom eu mynychu a'r dystiolaeth a gafwyd yn ystod yr arolygiad y caiff digwyddiadau a'r defnydd o ymyriadau corfforol eu gwirio a'u goruchwyllo.

Gwelsom dystiolaeth fod gwiriadau wythnosol yn cael eu gwneud ar y cyfarpar dadebru a'r cyfarpar brys ar y ward Roedd y staff wedi dogfennu pryd roedd y gwiriadau hyn wedi'u cynnal er mwyn sicrhau bod y cyfarpar ar gael, ei fod yn gyfredol a'i fod yn ddiogel i'w ddefnyddio pe byddai argyfwng fel claf yn llewygu.

Ar noson gyntaf yr arolygiad, nodwyd materion mewn perthynas â'r statws 'Na cheisier dadebru cardio-anadlol (DNACPR)' a gofnodwyd ar gyfer rhai cleifion ar Ward Tegid. Mae manylion y materion a'r camau unioni a gymerwyd i'w gweld yn [Atodiad A](#).

Cofnodion y Cleifion

Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu cadw ar ffurf ffeiliau papur a gyriant electronig a rennir. Roedd y ffeiliau papur yn cael eu cadw'n ddiogel ar y safle ac roedd cyfrineiriau yn cael eu defnyddio ar y system electronig er mwyn atal achosion o fynediad heb awdurdod ac achosion o dor-cyfrinachedd.

Roedd cofnodion y cleifion a welsom yn ystod yr arolygiad yn gynhwysfawr ac o ansawdd da. Roedd y cofnodion yn drefnus iawn a oedd yn ei gwneud yn hawdd symud drwy'r adrannau. Gwelsom gofnodion manwl gan staff nyrsio a gweithwyr proffesiynol yn y timau amllddisgyblaethol o'r cam derbyn hyd at y cam rhyddhau, a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y claf a'i ofal.

Ceir rhagor o wybodaeth am ein canfyddiadau mewn perthynas â chofnodion cleifion a chynlluniau gofal yn adran Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal yr adroddiad hwn.

Maeth a hydradu

Gwelsom dystiolaeth bod anghenion deietegol y cleifion wedi cael eu hasesu pan gawsant eu derbyn gan ddefnyddio'r Adnodd Sgrinio Diffyg Maeth Cyffredinol (MUST). Gwelsom fod anghenion deietegol penodol wedi cael eu nodi pan oedd angen. Gwnaethom arsylwi ar y staff yn cwblhau ffurflenni cymeriant bwyd a hylif yn ystod amser bwyd. Roedd yr holl gleifion yn cael gwiriadau rheoli pwysau parhaus yn ystod eu harhosiad. Roedd yn gadarnhaol nodi enghraifft lle roedd staff wedi uwchgyfeirio achos diweddar lle roedd claf wedi colli llawer iawn o bwysau. Fodd bynnag, dywedodd y staff wrthym am yr anawsterau y maent yn eu cael wrth geisio pwysu cleifion sy'n gaeth i'r gwely.

Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r cyfarpar sydd ar gael yn yr uned ac ymchwilio i b'un a oes angen cyfarpar pwysu arbenigol er mwyn sicrhau y gellir pwysu cleifion sy'n gaeth i'r gwely.

Roedd byrbrydau a diodydd poeth ac oer ar gael i'r cleifion drwy'r dydd. Gallai'r cleifion ddewis eu prydau o fwydlen wythnosol. Gwelsom gymysgedd o fwyd poeth ac oer yn cael ei weini i'r cleifion drwy gydol yr arolygiad. Nodwyd nad oedd y staff yn sicr beth oedd yr opsiynau bwyd poeth ar y troli weithiau. Efallai yr hoffai'r bwrdd iechyd ystyried gwella'r labeli ar yr opsiynau bwyd er mwyn osgoi dryswch.

Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Gwnaethom adolygu dogfennau cadw statudol pum claf sy'n preswyllo yn yr uned ar hyn o bryd. Cawsom ein sicrhau bod cyfrifoldebau'r bwrdd iechyd o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl (y Ddeddf) yn cael eu cynnal. Gwelwyd bod yr holl gofnodion yn cydymffurfio â'r Ddeddf a'r Cod Ymarfer.

Roedd y cofnodion hyn yn drefnus iawn, yn hawdd eu deall ac yn dangos cydymffurfiaeth â'r Ddeddf. Roedd Gweinyddydd y Ddeddf Iechyd Meddwl yn wybodus iawn ac roedd y staff o'r farn ei fod yn ffynhonnell ardderchog o wybodaeth a chymorth i'r staff.

Gwelsom dystiolaeth bod asesiadau galluedd meddyliol yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau y gallai cleifion wneud penderfyniadau drostynt eu hunain mewn perthynas â'u triniaeth, rhoi meddyginiaeth a chymryd rhan mewn gweithgareddau therapiwtig. Roedd pob tystysgrif berthnasol yn rhoi cydsyniad i driniaeth yn cael ei storio ochr yn ochr â siartiau'r MAR fel y bo'n ofynnol.

Roedd y dogfennau absenoldeb Adran 17 a welsom yn dangos bod asesiadau risg addas yn cael eu cwblhau ar gyfer absenoldeb. Fodd bynnag, nodwyd y gellid cryfhau amodau a chanlyniadau'r absenoldeb ar gyfer rhai cleifion er mwyn rhoi mwy o eglurder i'r staff o ran disgwyliadau'r trefniadau absenoldeb.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod trefniadau absenoldeb Adran 17 yn cael eu diffinio'n glir er mwyn osgoi amwysedd rhwng y staff a'r cleifion.

Roedd cymorth da ar gael i'r cleifion gan y gwasanaeth Eirioli Iechyd Meddwl Annibynnol lleol.

Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal

Ochr yn ochr â'n hadolygiad o ddogfennau cadw statudol, gwnaethom ystyried y ffordd roedd Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 yn cael ei gymhwyso. Gwnaethom edrych ar sampl o chwe Chynllun Gofal a Thriniaeth a chawsom ein sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau yn unol â'r mesur. Roedd asesiadau risg priodol yn cael eu cwblhau a'u dogfennu.

Roedd gan y cleifion gynlluniau gofal a thriniaeth cyfredol a oedd yn adlewyrchu eu hanghenion a aseswyd ac yn helpu i'w cadw'n ddiogel. Gwelsom dystiolaeth bod y cleifion wedi cael eu cynnwys yn y broses o gyd-gynhyrchu eu cynllun gofal a thriniaeth ochr yn ochr â'u teulu neu eu ffrindiau lle y bo'n briodol.

Roedd cynlluniau gofal a thriniaeth wedi cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd adolygiadau o'r cynlluniau gofal a thriniaeth wedi cael eu cymeradwyo gan yr aelod o'r staff a oedd yn cynnal yr adolygiad bob amser, ac nid oedd dyddiad arnynt bob amser chwaith.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod adolygiadau o gynlluniau gofal a thriniaeth yn cael eu llofnodi a'u dyddio at ddibenion archwilio ac er mwyn sicrhau tryloywder.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan Staff

Cafwyd ymatebion amrywiol gan y staff i holiaduron AGIC, gyda chymysgedd o adborth cadarnhaol a negyddol. Dywedodd y mwyafrif o'r staff y byddent yn argymhell yr uned fel lle i weithio ac y byddent yn fodlon ar safon y gofal a ddarperir gan yr uned ar eu cyfer eu hunain neu ar gyfer ffrindiau neu deulu.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff nad oedd eu gwaith yn andwyol i'w hiechyd ar y cyfan. Fodd bynnag, dywedodd bron hanner y staff nad oedd eu patrwm gwaith cyfredol yn caniatáu ar gyfer cydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith.

Hefyd, mynegodd rhai aelodau o'r staff bryderon ynglŷn â lefelau staffio'r uned a nodir yn fanylach isod yn yr adran Gweithlu medrus a galluog o'r adroddiad hwn. Roedd sylwadau eraill gan y staff yn cynnwys y canlynol:

“Mae rheolwr y ward yn gwneud gwaith gwych, gan gefnogi'r staff a phwysleisio bod angen mwy o staff er mwyn sicrhau bod y cleifion yn ddiogel ar y ward ac mae'r gwaith papur cynyddol yn cael ei gwblhau mewn da bryd.”

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Roedd yn ymddangos bod prosesau llywodraethu a goruchwyllo priodol ar waith o ran gweithgareddau a chyfarfodydd i drafod materion yn ymwneud â gofal cleifion ac i nodi gwelliannau. Gwelsom fod pawb yn cydweithio'n dda â'i gilydd drwy gydol yr arolygiad.

Ar y cyfan, cawsom adborth cadarnhaol gan y staff am eu rheolwyr llinell uniongyrchol. Roedd y mwyafrif o'r staff yn teimlo y gallent ddibynnu ar eu rheolwr i'w helpu i gyflawni tasgau anodd yn y gwaith a'u bod yn holi am eu barn cyn mynd ati i wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu gwaith.

Fodd bynnag, roedd yr holiaduron yn awgrymu bod diffyg cysylltiad rhwng y staff nyrsio a'r uwch-reolwyr. Roedd y mwyafrif o'r staff yn teimlo nad oedd yr uwch-reolwyr yn weladwy ac nad oedd prosesau cyfathrebu rhwng yr uwch-reolwyr a'r staff yn effeithiol.

Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd gan y staff yn yr holiaduron mewn perthynas â hyn yn cynnwys y canlynol:

“Nid yw'r uwch-reolwyr yn yr uned hon yn cefnogi staff yr uned er i'r mater gael ei godi mewn cyfarfodydd boreol. Caiff ceisiadau am gymorth eu hanwybyddu yn aml ac mae hyn wedi arwain at achosion lle mae staff heb lawer iawn o brofiad wedi gorfod ymdrin â'r sefyllfaoedd anodd hyn.”

“Mae rheolwyr y wardiau yn gefnogol iawn ac yn mynd y tu hwnt i'r disgwyliadau, ond nid yw'n hawdd mynd at yr Uwch-dîm Arwain ac nid yw'n darparu digon o gymorth nac yn cefnogi'r wardiau pan fyddant yn heriol neu'n rhedeg â lefel staffio anniogel.”

Rhaid i'r bwrdd iechyd fyfyrrio ar yr adborth hwn a rhoi sicrwydd o ran sut y bydd yn ymgysylltu â'r staff ac yn gwrando arnynt, ac yn sicrhau bod yr uwch-reolwyr yn fwy gweladwy er mwyn rhoi mwy o gymorth a sicrhau y gall y staff gyflawni eu cyfrifoldebau i ddarparu gofal o ansawdd uchel i gleifion.

Y gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Gwelsom fod prosesau addas ar waith i uwch-aelodau o staff fonitro cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol. Roedd yn gadarnhaol gweld bod cyfraddau cydymffurfio â hyfforddiant gorfodol ar y cyfan yn uchel ymhlith y staff yn yr uned. Dywedodd y mwyafrif o'r staff a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn teimlo eu bod wedi cael hyfforddiant priodol i ymgymryd â'u rolau.

Cawsom wybod am y trefniadau cynllunio gweithlu sydd ar waith er mwyn sicrhau bod staff cymwys ar gael sydd â chymysgedd priodol o sgiliau a'r gallu i redeg yr uned yn ddiogel. Roedd yn glir o drafodaethau â'r staff fod staff asiantaeth yn cael eu defnyddio i gyflenwi'r rotas staffio. Rhannodd y staff y sylwadau canlynol mewn perthynas â lefelau staffio, yn ystod y dydd a'r nos:

“Prinder staff yw'r brif broblem yn Uned Ablett, yn enwedig ar shifftiau nos. Mae'n anodd darparu gofal o'r ansawdd uchaf pan fydd rhaid i chi wneud sawl tasg ar yr un pryd, h.y. arsylwadau cyffredinol, meddyginiaethau ac ymdrin â materion unigol fel cleient AWOL.”

“Mae angen mynd i'r afael â'r lefelau staffio.”

“Mae'r aciwtedd ar y ward bob amser yn uchel ac yn ddiweddar, oherwydd problemau staffio, nid ydym wedi bod yn gallu mynd â chleifion ar absenoldeb Adran 17 sy'n effeithio ar eu hymddygiad a gall beri i'r aciwtedd waethygu ar y ward. Rydym hefyd wedi gorfod gofyn i reolwr y ward weithio ar y ward fel y gallai'r staff roi cawod i glaf. Heb staffio priodol, ni allwn ddiwallu anghenion dynol sylfaenol.”

“Mae'r lefelau staffio yn wael ar y ward sy'n golygu bod yn rhaid i'r staff ar y shifft aros yn hwyr a gweithio oriau ychwanegol oherwydd pe baent yn gadael ar ddiwedd eu shifft, byddai'r ward yn annïogel.”

Nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad fod aelodau o'r staff wedi dweud wrthym am yr anawsterau o ran sicrhau lefelau staffio diogel ar y wardiau pan gaiff staff eu symud i gyflenwi yn yr ystafell Adran 136. Ar noson gyntaf yr arolygiad, gwelsom yr anawsterau a wynebîr gan y staff nyrsio i drefnu cyflenwad digonol ar y wardiau oherwydd lefelau arsylwi a'r ffaith y cafodd claf ei dderbyn i'r ystafell Adran 136. Hefyd, dywedodd y staff wrthym nad oeddent yn aml yn gallu cymryd eu hegwyllion rheolaidd yn ystod eu shifft.

Mae sylwadau'r staff, a'r anawsterau a welsom, yn codi pryderon o ran a yw'r trefniadau staffio presennol yn ddigonol i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion bob amser.

Rhaid i'r bwrdd iechyd drafod y materion a godwyd mewn perthynas â lefelau staffio â'r staff er mwyn deall eu pryderon yn llawn. Hefyd, rhaid i'r bwrdd iechyd roi sicrwydd i AGIC o ran pa gamau a gymerir i alluogi'r staff i gymryd eu hegwyllion rheolaidd ac a gaiff y trefniadau staffio presennol eu hadolygu yng ngoleuni'r materion a godwyd.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Roedd gwybodaeth am y broses Gweithio i Wella yn cael ei harddangos ym mhob rhan o'r uned er mwyn rhoi gwybod i'r cleifion sut y gallent wneud cwyn pe baent am wneud hynny. Gwelsom dystiolaeth bod cyfarfodydd Gweithio i Wella wythnosol yn cael eu cynnal i drafod materion a godwyd. Gwelsom bosteri ym mhob rhan o'r uned a oedd yn rhoi gwybod i'r cleifion am ganlyniadau eu hadborth ac unrhyw newidiadau neu welliannau a roddwyd ar waith o ganlyniad, a oedd yn arfer dda.

Roedd y mwyafrif o'r staff a gwblhaodd holiadur yn cytuno eu bod yn deall y Ddyletswydd Gonestrwydd a'u rôl o ran cyrraedd safonau'r Ddyletswydd Gonestrwydd. Roedd y staff hefyd yn cytuno bod y bwrdd iechyd yn eu hannog i godi pryderon pan fydd rhywbeth wedi mynd o'i le ac i rannu hyn â'r claf. Gwelsom y gallai'r staff ddefnyddio gweithdrefn i staff y GIG godi pryderon a oedd yn annog y staff i godi pryderon mewn perthynas â materion diogelwch ac achosion pan oeddent yn amau bod camgymeriad wedi'i wneud cyn gynted â phosibl.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd yn amlwg o drafodaethau â'r staff fod ffocws uniongyrchol ar sicrhau y bydd y cyfleuster iechyd meddwl newydd sy'n cael ei adeiladu yn datrys llawer o'r problemau sy'n atal y gwasanaeth rhag darparu cyfleusterau a gofal gwell i'r cleifion ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'r cynigion presennol yn awgrymu y bydd y cyfleuster newydd yn gallu derbyn cleifion yn 2026.

Oherwydd nifer y materion a godir yn yr adroddiad hwn, a difrifoldeb rhai ohonynt, rhaid i'r bwrdd iechyd roi sicrwydd i AGIC o ran pa gamau a gaiff eu cymryd yn y cyfamser i wella'r amgylchedd ac ansawdd y gofal a ddarperir i gleifion yn yr uned cyn i'r cyfleuster newydd gael ei agor.

Dull systemau cyfan

Gweithio mewn partneriaeth a datblygu

Gwelsom dystiolaeth o waith cynllunio priodol mewn perthynas â rhyddhau ac ôl-ofal yn y cynlluniau gofal a thriniaeth y gwnaethom edrych arnynt, gyda chyfranogiad da gan y tîm amlddisgyblaethol, cydgysylltwyr gofal a thimau iechyd meddwl o'r gymuned leol.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ar noson gyntaf yr arolygiad, gwnaethom edrych ar y bwrdd cipolwg ar statws cleifion yn y swyddfa nyrsio ar Ward Tegid. Nodwyd gennym nad oedd statws 'Na cheisier dadebru cardio-anadlol (DNACPR)' wedi cael ei gofnodi ar gyfer rhai cleifion. Gwnaethom ymchwilio ymhellach i hyn gyda'r staff a nodi hefyd nad oedd y statws DNACPR yn glir yn nhaflen drosglwyddo'r nyrsys.	Am nad oedd y statws DNACPR wedi cael ei gofnodi, roedd risg bosibl y gellid rhoi triniaeth dadebru cardio-anadlol i rai cleifion yn amhriodol.	Gwnaethom uwchgyfeirio ein pryderon ar unwaith i'r uwch-nyrs â chyfrifoldeb am yr uned y noson honno.	Gwelsom y nyrs â chyfrifoldeb yn diweddarau'r bwrdd er mwyn cofnodi statws DNACPR cywir pob claf ar Ward Tegid. Diweddarwyd taflen drosglwyddo'r nyrsys hefyd a rhoddodd y nyrs â chyfrifoldeb sicrwydd i ni y byddai'r hyn a ddysgwyd yn cael ei rannu â staff mewn cyfarfodydd trosglwyddo dilynol.

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Uned Ablett

Dyddiad yr arolygiad: 17, 18 ac 19 Gorffennaf 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion yr oedd angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch yn ystod yr arolygiad hwn.				

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Uned Ablett

Dyddiad yr arolygiad: 17, 18 ac 19 Gorffennaf 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Nid oedd unrhyw wybodaeth hybu iechyd wedi'i harddangos i'r cleifion.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth hybu iechyd ar gael i helpu cleifion i wneud penderfyniadau sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu hiechyd a'u llesiant.	1. Caiff hysbysfyrddau / byrddau arddangos newydd eu harchebu a'u harddangos mewn ardaloedd cymunedol i hybu iechyd a llesiant ac unrhyw wybodaeth a chanllawiau ychwanegol 2. Rhoddir taflenni gwybodaeth am iechyd i gleifion pan gânt eu derbyn	Pennaeth Gweithrediadau (Canolog) Pennaeth Gweithrediadau (Canolog)	31 Hydref 2023 31 Hydref 2023
Mynegodd un aelod o'r staff bryderon am fewnanadlu mwg ail law wrth hebrwng cleifion sy'n smygu ar absenoldeb Adran 17.	Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r trefniadau smygu i gleifion sydd ar absenoldeb Adran 17 er mwyn sicrhau bod iechyd a llesiant y staff yn cael eu diogelu'n llawn.	1. Cydymffurfio â'r Polisi Rhoi'r Gorau i Smygu drwy sicrhau y caiff strategaethau rhoi'r gorau i smygu eu cynnig i bob unigolyn pan gaiff ei dderbyn. Diweddarau archwiliadau presennol er mwyn cynnwys gweithgareddau rhoi'r gorau i smygu.	Pennaeth Nyrsio (Canolog)	30 Medi 2023

		2. Bydd y Grŵp Rhoi'r Gorau i Smygu Is-adrannol yn llunio canllawiau mewn perthynas ag iechyd a llesiant staff sy'n hebrwng cleifion sy'n smygu oddi ar y safle, ac yn rhannu'r rhain â'r staff.	Cadeirydd y Grŵp Rhoi'r Gorau i Smygu Is-adrannol - Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio (AJ)	31 Hydref 2023
Nid oedd cyflwr yr ardd yn Ward Dinas i Fenywod o'r un safon â'r ardd yn Ward Dinas i Ddynion.	Rhaid i'r bwrdd iechyd wella cyflwr yr ardd yn Ward Dinas i Fenywod.	1. Cydgysylltu â'r Adran Ystadau er mwyn cwblhau gwaith cynnal a chadw cyffredinol i'r ardd a gwelliannau i'r adran. 2. Ystyried defnyddio arian elusennol i wella amgylchedd yr ardd er mwyn darparu amgylchedd therapiwtig i'r cleifion.	Pennaeth Gweithrediadau (Canolog) Pennaeth Gweithrediadau (Canolog)	31 Hydref 2023 31 Rhagfyr 2023
Cawsom wybod nad oedd polisi preifatrwydd ac urddas ar waith.	Rhaid i'r bwrdd iechyd ddatblygu polisi preifatrwydd ac urddas sy'n nodi'r ffordd y cynhelir preifatrwydd ac urddas cleifion ar wardiau cymysg ac mewn ystafelloedd a rennir.	1. Caiff hyn ei drafod yng nghyfarfod Grŵp Polisi a Gweithdrefn yr Is-adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu er mwyn cael ymateb gan yr Is-adran a/neu'r Bwrdd Iechyd	Rheolwr Gweithredol Clinigol (Canolog)	10 Hydref 2023
Dywedwyd wrthym y caiff y cleifion eu hannog i beidio ag arddangos pethau ar	Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried caniatáu i'r cleifion bersonoli eu hystafelloedd er mwyn creu rhywle a all fynegi eu	1. Cydgysylltu â'r Tîm Atal Heintiau i ganfod ffyrdd addas a phriodol o bersonoli ystafelloedd cleifion.	Pennaeth Nyrsio (Canolog)	31 Hydref 2023

waliau eu hystafelloedd gwely.	personoliaeth a helpu i hybu llesiant.	2. Rhaid i unrhyw eitemau a gaiff eu hychwanegu i bersonoli ystafelloedd gael eu cynnwys ar yr archwiliad lleihau risg o bwyntiau clymu lleol ar gyfer pob ward.	Pennaeth Nyrzio (Canolog)	31 Hydref 2023
Pan wnaethom edrych ar gofnodion y cleifion, roeddem yn teimlo y gellid cryfhau rhai agweddau ar y cynlluniau gofal a thriniaeth.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cynlluniau gofal a thriniaeth yn bodloni'r canllawiau a nodir ym Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 yn llawn er mwyn cefnogi prosesau gwella.	1. Rhoddir amserlen hyfforddiant ar waith yn canolbwyntio ar ansawdd y cynlluniau gofal a thriniaeth. 2. Archwilio cofnodion goruchwyllo er mwyn sicrhau bod ansawdd cynlluniau gofal a thriniaeth yn cael eu hadolygu yn ystod sesiynau goruchwyllo.	Arweinydd y Mesur Iechyd Meddwl (Canolog) Rheolwr Gofal Acíwt (Canolog)	31 Mawrth 2024 31 Mawrth 2024
Nodwyd bod yr ystafell golchi dillad yn flêr a gwelsom fod dillad heb labeli o gwmpas y lle.	Rhaid i'r bwrdd iechyd dacluso'r ystafell golchi dillad a gwella'r trefniadau golchi dillad er mwyn sicrhau y caiff dillad y cleifion eu storio a'u labelu'n briodol.	1. Bydd staff cadw tŷ yr uned yn archwilio'r ystafelloedd golchi dillad ddwywaith y dydd. 2. Cynhyrchu arwyddion i atgoffa defnyddwyr i gadw'r ystafell yn daclus.	Rheolwr Gofal Acíwt (Canolog) Rheolwr Gofal Acíwt (Canolog)	31 Hydref 2023 31 Hydref 2023
Cawsom wybod nad oedd polisi ar ddefnyddio larymau personol ar waith.	Rhaid i'r bwrdd iechyd ddatblygu polisi sy'n nodi'r disgwyliadau o ran diogelwch y staff mewn perthynas â gwisgo larymau personol.	1. Caiff hyn ei drafod yng nghyfarfod Grŵp Polisi a Gweithdrefn yr Is-adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu er mwyn cael ymateb gan yr Is-adran a/neu'r Bwrdd Iechyd.	Rheolwr Gweithredol Clinigol (Canolog)	10 Hydref 2023

Roedd gennym bryderon nad oedd amgylchedd presennol yr ystafell Adran 136 yn addas at y diben ynghyd â phryderon am ddiogelwch y staff sy'n rheoli'r ystafell, a ph'un a ellir cynnal lefelau staffio diogel pan gaiff claf ei dderbyn i'r ystafell Adran 136.	Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r defnydd o'r ystafell Adran 136 a rhaid i hyn gynnwys dod o hyd i atebion i'r problemau amgylcheddol yn yr ystafell a'r gofynion staffio er mwyn darparu trefniadau cyflenwi diogel ar gyfer staff yn yr ystafell Adran 136 ynghyd â chynnal lefelau staffio diogel ar y wardiau.	1. Mae asesiad risg wedi cael ei gwblhau mewn perthynas ag ymarferoldeb yr ystafell. 2. Cynhaliwyd cyfarfod gyda'r adran lechyd a Diogelwch a'r adran Ystadau mewn perthynas â diogelwch y staff a materion amgylcheddol. 3. Trefnu cyfarfodydd rheolaidd gyda'r staff ac ochr y staff. 4. Rhoi diweddariadau rheolaidd i gyfarfodydd Arweinyddiaeth Weithredol ac Ystadau Cyfalaf.	Pennaeth Gweithrediadau (Canolog) Pennaeth Gweithrediadau (Canolog) Pennaeth Nyrsio (Canolog) Pennaeth Gweithrediadau (Canolog)	Wedi'i gwblhau Wedi'i gwblhau 30/09/2023 ac yn barhaus 30/09/2023 ac yn barhaus
Nodwyd gennym fod angen cynnal a chadw rhannau o'r amgylchedd.	Rhaid i'r bwrdd iechyd gymryd camau i fynd i'r afael â'r materion hyn er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio.	1. Bydd yr adran Ystadau yn edrych ar waelod y gawod gyda'r bwriad o newid y silicôn. 2. Codi cais am fân waith er mwyn mynd i'r afael â'r teils a'r difrod i'r drysau. 3. Codi cais am fân waith i newid paneli diogelwch mewn ystafelloedd ymolchi.	Pennaeth Gweithrediadau (Canolog) Pennaeth Gweithrediadau (Canolog) Pennaeth Gweithrediadau (Canolog)	6 Hydref 2023 6 Hydref 2023 6 Hydref 2023

Cawsom wybod nad oedd cyfleusterau golchi ar wahân i olchi dillad neu ddillad gwely budr cleifion anymataliol.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod dillad neu ddillad gwely budr yn cael eu trin, eu cludo a'u dihalogi yn unol â'r canllawiau ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.	1. Caiff y Memorandwm Technegol ei rannu â'r staff clinigol.	Rheolwr Gofal Acíwt (Canolog)	30 Medi 2023
		2. Arddangos y memorandwm yn yr ardal golchi dillad.	Rheolwr Gofal Acíwt (Canolog)	30 Medi 2023
Gwelsom nifer bach o fylchau wrth gofnodi tymheredd yr oergelloedd ar y wardiau.	Rhaid i'r bwrdd iechyd atgoffa'r staff am bwysigrwydd cynnal a dogfennu gwiriadau o'r fath.	1. Caiff hyn ei gynnwys yn yr archwiliad o wiriadau dyddiol yr uned a'i drafod yn y Sgrym Diogelwch am 4pm ar gyfer cadw cofnodion.	Rheolwr Gofal Acíwt (Canolog)	30 Medi 23 ac yn barhaus
		2. Gwneir cofnod yn Datix yn yr adran meysydd o ddiffyg cydymffurfio.	Rheolwr Gofal Acíwt (Canolog)	
Nid oedd 10 o'r 12 siart MAR a welsom yn cynnwys cofnod o statws cyfreithiol presennol y cleifion o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod siartiau MAR yn cael eu cwblhau'n llawn a'u hysgrifennu'n glir er mwyn osgoi dryswch i'r staff a lleihau'r risg o gamgymeriadau o ran meddyginiaeth.	1. Cynhaliwyd archwiliad ar unwaith ac unionwyd unrhyw fylchau a nodwyd.	Pennaeth Nyrsio (Canolog)	Wedi'i gwblhau 31 Hydref 2023
		2. Rhoi archwiliad parhaus ar waith i sicrhau y caiff unrhyw fylchau pellach eu hunioni mewn modd amserol.	Pennaeth Nyrsio (Canolog)	
Dywedodd hanner y staff a gwblhaodd holiadur AGIC nad oeddent yn fodlon ar ymdrechion y bwrdd	Rhaid i'r bwrdd iechyd drafod yr elfen hon o'r adborth â'r staff er mwyn dod o hyd i ffyrdd o wella ymdeimlad o ddiogelwch i'r staff a'r cleifion.	1. Ailddosbarthu gohebiaeth yn nodi'r amserlen ar gyfer sesiynau galw heibio i'r staff. Caiff y sesiynau galw heibio hyn eu cadeirio gan aelod o'r Uwch-dîm	Pennaeth Nyrsio (Canolog)	6 Hydref 2023

iechyd i'w cadw nhw a'r cleifion yn ddiogel.		Arwain ac maent yn agored i bob gradd a disgyblaeth. 2. Hyrwyddo trafodaeth mewn sgrymiau diogelwch dyddiol er mwyn sicrhau y gellir codi pryderon am ddiogelwch y staff a'r cleifion. 3. Cydgysylltu â'r Arweinydd Datblygu Hyfforddiant a Llesiant er mwyn hwyluso trafodaeth bellach â'r staff a chwilio am ffyrdd o wella ymdeimlad o ddiogelwch i'r staff a'r cleifion.	Pennaeth Nyrsio (Canolog) Pennaeth Nyrsio (Canolog)	6 Hydref 2023 6 Hydref 2023
Dywedodd y staff wrthym am yr anawsterau y maent yn eu cael wrth geisio pwyso cleifion sy'n gaeth i'r gwely.	Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r cyfarpar sydd ar gael yn yr uned ac ymchwilio i b'un a oes angen cyfarpar pwyso arbenigol er mwyn sicrhau y gellir pwyso cleifion sy'n gaeth i'r gwely.	1. Cynhelir adolygiad o ddichonoldeb cael cyfarpar ychwanegol i bwysu cleifion sy'n gaeth i'r gwely.	Pennaeth Nyrsio (Canolog)	31 Hydref 2023
Gellid cryfhau amodau a chanlyniadau'r absenoldeb ar gyfer rhai cleifion er mwyn rhoi mwy o eglurder i'r staff	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod trefniadau absenoldeb Adran 17 yn cael eu diffinio'n glir er mwyn osgoi amwysedd rhwng y staff a'r cleifion.	1. Bydd y Cyfarwyddwr Clinigol yn codi'r angen am eglurder a sicrwydd wrth gwblhau ffurflenni absenoldeb Adran 17 yn y cyfarfod nesaf i Feddygon Ymgynghorol.	Cyfarwyddwr Clinigol (AP)	31 Hydref 23

o ran disgwyliadau'r trefniadau absenoldeb.		2. Nodir cylch archwilio er mwyn adolygu ffurflenni absenoldeb Adran 17.	Pennaeth Nyrsio (Canolog)	31 Hydref 23
Nid oedd cynlluniau gofal a thriniaeth wedi cael eu cymeradwyo gan yr aelod o'r staff a oedd yn cynnal yr adolygiad bob amser, ac nid oedd dyddiad arnynt bob amser chwaith.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod adolygiadau o gynlluniau gofal a thriniaeth yn cael eu llofnodi a'u dyddio at ddibenion archwilio ac er mwyn sicrhau tryloywder.	1. Caiff amserlen o hyfforddiant ar gynlluniau gofal a thriniaeth ei datblygu gan Arweinydd y Mesur Iechyd Meddwl. 2. Caiff cynlluniau gofal a thriniaeth eu harchwilio bob chwarter	Arweinydd y Mesur Iechyd Meddwl (Canolog) Pennaeth Nyrsio (Canolog)	31 Ionawr 2024 31 Ionawr 2024
Roedd y mwyafrif o'r staff yn teimlo nad oedd yr uwch-reolwyr yn weladwy ac nad oedd prosesau cyfathrebu rhwng yr uwch-reolwyr a'r staff yn effeithiol.	Rhaid i'r bwrdd iechyd roi sicrwydd o ran sut y bydd yn ymgysylltu â'r staff ac yn gwrandao arnynt, ac yn sicrhau bod yr uwch-reolwyr yn fwy gweladwy er mwyn rhoi mwy o gymorth a sicrhau y gall y staff gyflawni eu cyfrifoldebau i ddarparu gofal o ansawdd uchel i gleifion.	1. Bydd yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth yn cymryd rhan yn y sgrym diogelwch dyddiol er mwyn sicrhau bod y tîm rheoli yn cyfrannu'n weladwy at drafodaethau, yn rhan allweddol o brosesau cyfathrebu ac yn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf â'r staff. 2. Bydd amserlen o gyfarfodydd Band 6 a Band 7 gyda'r Uwch-dîm Arwain yn dechrau ym mis Medi 2023.	Pennaeth Nyrsio (Canolog) Pennaeth Nyrsio (Canolog)	30 Medi 2023 30 Medi 2023
Mae sylwadau'r staff, a'r anawsterau a welsom, yn codi pryderon o ran a yw'r trefniadau staffio presennol yn ddigonol i	Rhaid i'r bwrdd iechyd drafod y materion a godwyd mewn perthynas â lefelau staffio â'r staff er mwyn deall eu pryderon yn llawn. Hefyd, rhaid i'r bwrdd	1. Mae'r Is-adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu wedi ymgymryd ag adolygiad o'r trefniadau staffio ac mae'r staff bellach yn ymgynghori arno. Ar ôl ymgynghori, caiff yr adolygiad ei	Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio (AJ)	5 Hydref 2023

ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion bob amser.	iechyd roi sicrwydd i AGIC o ran pa gamau a gymerir i alluogi'r staff i gymryd eu hegwyllion rheolaidd ac a gaiff y trefniadau staffio presennol eu hadolygu yng ngoleuni'r materion a godwyd.	gyflwyno i'r Uwch-dîm Arwain Is-adrannol ac yna caiff ei gyflwyno i'r Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Nyrsio. 2. Bydd yr Uwch-dîm Arwain yn cyfarfod â'r staff er mwyn deall y rhwystrau sy'n eu hatal rhag cymryd eu hegwyllion rheolaidd. 3. Rhaid i unrhyw broblemau o ran staff yn cymryd eu hegwyllion rheolaidd gael eu huwchgysfeirio gan gynrychiolydd y Ward yn y Sgrymiau Diogelwch dyddiol.	Pennaeth Nyrsio (Canolog) Rheolwr Gofal Aciwt (Canolog)	31 Hydref 2023 2 Hydref 2023
Cawsom wybod y byddai cyfleuster iechyd meddwl newydd, y disgwylir iddo agor yn 2026, yn datrys llawer o'r problemau sy'n atal y gwasanaeth rhag darparu cyfleusterau a gofal gwell i'r cleifion ar hyn o bryd.	Rhaid i'r bwrdd iechyd roi sicrwydd i AGIC o ran pa gamau a gaiff eu cymryd yn y cyfamser i wella'r amgylchedd ac ansawdd y gofal a ddarperir i gleifion yn yr uned cyn i'r cyfleuster newydd gael ei agor.	1. Mae rhaglen waith barhaus yn mynd rhagddi i gynnal a chadw'r amgylchedd a'i wella. Caiff y gwaith ei gwblhau naill ai drwy'r cynllun mân waith neu drwy'r adran cyfalaf ac ystadau. Yn ogystal, mae opsiynau yn cael eu hystyried ar gyfer gwaith i wella'r ystafell Adran 136. 2. Mae rhaglen waith i leihau'r risg o bwyntiau clymu yn parhau i fynd rhagddi.	Pennaeth Gweithrediadau (Canolog) Pennaeth Gweithrediadau (Canolog)	31 Rhagfyr 2023 31 Rhagfyr 2023

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Huw Jones

Teitl swydd: Pennaeth Nyrso - Canolog

Dyddiad: 25 Medi 2023